Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 19eg Chwefror 2019 am 10.00am**
**Gorsaf Dân Hwlffordd**

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr APCAP (Cadeirydd) |
| Ian Westley | Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro (gadawodd 11.25am) |
| Kevin Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub CAGC |
| Andrea Winterton | Rheolwr Gweithrediadau D-o Sir Benfro, Morol a Monitro, Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Barry Walters | Prifathro Dros Dro, Coleg Sir Benfro |
| Rowland Rees-Evans | Cadeirydd, Awdurdod Tân CAGC |
| Jonathan Feild | Rheolwr Cyflogwyr a Phartneriaethau, DWP |
| Sarah Jennings | Cyfarwyddwr Partneriaethau a Gwasanaethau Corfforaethol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (cyrhaeddodd 10.15am) |
| Anna Bird | Pennaeth Datblygu Partneriaeth Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (cyrhaeddodd 10.15am) |
| Diane Lockley | Cadeirydd, Pwyllgor Ardal Leol Un Llais Cymru |
| Dr Steven Jones | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Penfro |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol PLANED |
| Cris Tomos | Yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Gymraeg |
| Carys Morgans | Pennaeth Staff, Swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| Yr Uwch. Ross Evans | Heddlu Dyfed Powys (gadawodd 11.05am) |
| Michelle Copeman | Rheolwr Polisi ac Ymgysylltu â Dinasyddion, PAVS |

*Cymorth / Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP |
| Lynne Richards | Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP |

*Yn gweini*

| | |
|---|---|
| Claire George | Cydgysylltydd Cymorth Partneriaeth a Chraffu, CSP |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Natalie Pearson | Pennaeth Ymgysylltu Llywodraeth Cymru |
| Rob Quin | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub CAGC |
| Sue Leonard | Prif Swyddog PAVS (Is-gadeirydd) |
| Bernadine Rees | Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Ros Jervis | Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Andy Jones | Prif Weithredwr Dros Dro, Porthladd Aberdaugleddau |
| Martyn Palfreman | Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, PGGC |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Gwnaed cyflwyniadau a derbyniwyd ymddiheuriadau'r rhai a restrwyd uchod.

Mynegodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i Rob Quin o Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Bernadine Rees o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar eu hymddeoliad a diolchodd iddynt am eu gwaith a chymorth i'r BGC. Byddai'n ysgrifennu at y ddau ar wahân i gyfleu hyn. **TJ/NE**

## 2. Cyflwyniad Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro

Rhoddwyd golwg dros y Swyddfa Hawliau Plant a Phobl Ifanc a Chynulliad Ieuenctid Sir Benfro i'r partneriaid gan Jade Roberts (Cadeirydd y Cynulliad Ieuenctid) a Bethany Roberts (Cyn-gadeirydd y Cynulliad Ieuenctid).

Tynnwyd sylw at bedwar prif faes gwaith y Swyddfa Hawliau Plant yn y flwyddyn a ddaw, ochr yn ochr â rhagor o fanylion ynghylch swyddogaeth y Cynulliad Ieuenctid a'r hyn a gyflawnwyd ganddynt hyd yma. Disgrifiwyd hefyd y materion allweddol i bobl ifanc yn Sir Benfro, yn dilyn gwaith ymgynghori'r llynedd ynghyd ag ymgynghoriadau ehangach yr ymatebodd y Cynulliad Ieuenctid iddynt. Soniwyd hefyd am waith cenedlaethol y Cynulliad Ieuenctid gyda'r Senedd Ieuenctid Cenedlaethol a Chymru Ifanc yn ogystal â rhaglen waith y Cynulliad am y flwyddyn a ddaw. Gorffennodd Jade a Bethany'r cyflwyniad trwy ofyn i bartneriaid y BGC sut fyddent yn hoffi gweithio gyda'r Cynulliad Ieuenctid i wella ffyniant pobl ifanc yn y Sir.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr y Cynulliad Ieuenctid am eu cyflwyniad a rhoddodd wahoddiad i bartneriaid ymateb i'w cwestiynau ynghylch cyfranogiad BGC. Awgrymodd JF y byddai'r prosiect denu a chyflogi'n elwa ar gyfraniad pobl ifanc a rhoddodd whaoddiad i gynrychiolydd y Cynulliad Ieuenctid fynychu cyfarfod nesaf grŵp y prosiect ac adleisiwyd sylwadau tebyg mewn cysylltiad â gwaith y grŵp Newid yn yr Hinsawdd. Cytunwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd y Cynulliad Ieuenctid i gyfarfodydd y BGC yn y dyfodol a gweld cyfleoedd i gynnwys safbwynt pobl ifanc wrth gyflawni ffrydiau gwaith unigol. Byddai tîm y Bartneriaeth yn gweld sut orau i wneud hyn. **NE**

## 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 20$^{fed}$ Tachwedd 2018 yn gofnod cywir.

## 4. Cofnod Gweithredu

Nododd NE y gweithredwyd holl gamau o'r cyfarfod diwethaf neu eu bod ar yr agenda i'w trafod yn y cyfarfod.

## 5. Adroddiad SAC 'Gwasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig'

Nododd NE bod yr adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018, yn canolbwyntio'n arbennig ar Gynghorau ac yn rhoi sylw penodol i'r cyfleoedd i gyrff cyhoeddus gynllunio a chyflenwi gwasanaethau ar y cyd yng nghefn gwlad yn fwy effeithiol, gan amlinellu'r rhan allweddol y mae disgwyl i BGC ei chwarae yn hyn.

Dywedodd fod y pryderon y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad yn cyd-fynd â llawer o'r hyn a welodd y BGC trwy'r Asesiad Ffyniant ac a ddechreuodd roi sylw iddynt drwy'r Cynllun Ffyniant. Mae neges SAC yn eglur y dylai BGC feddwl a gweithredu'n wahanol er mwyn cael hyd i ffyrdd cynaliadwy sy'n cynorthwyo cymunedau gwledig ateb yr heriau sy'n eu hwynebu.

Tynnodd RRE sylw at y gost uwch i awdurdodau lleol wrth gyflenwi gwasanaethau i ardaloedd gwledig ac y byddai'r sefyllfa'n gwella o drosglwyddo llawer o'r cymorth grant presennol i'r GCR. Nododd IT bod CLILC wedi trefnu achlysur a fyddai'n digwydd cyn y Pasg i edrych ar yr effaith ar gefn gwlad Cymru ar ôl Prallan ac y credai y dylai BGC fod â chynrychiolaeth gref yno. Byddai'n cylchredeg rhagor o wybodaeth ynghylch yr achlysur ynghyd â'r dyddiad, pan fyddai ar gael.

**IT**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y dylid awgrymu'r adroddiad ac ymateb rhanbarthol cyfunol rhwng BGC yn Sir Benfro, Ceredigion, Sir Gâr a Phowys bod yn fel eitem agenda ar gyfer y cyfarfod BGC rhanbarthol nesaf i'w gynnal ym mis Mehefin 2019.

**NE**

**6. Diweddariadau Prosiect Cynllun Ffyniant**

<u>Prosiect 1 – Fframwaith Trawsnewid Denu a Chyflogi</u>

Rhoddodd adroddiad ar gynnydd diweddar. Dywedodd bod y grŵp wedi bod yn gweithio ar fapio arferion gorau presennol o ran cymorth i brofiad gwaith a bod amrywiaeth o batrymau mewn bodolaeth. Gofynnwyd i bob sefydliad benodi un man cyswllt / hyrwyddwr profiad gwaith o fewn eu sefydliad a gofynnwyd i bartneriaid hybu'r fenter trwy eu gwefannau. Nododd JF mai swyddogaeth yr hyrwyddwyr profiad gwaith wrth rannu gwybodaeth am leoliadau fyddai'r allwedd i lwyddiant y prosiect. Byddai sefydliadau'n dal i ddefnyddio'u strwythurau atgyfeirio'u hunain.

Ar gyfer y cyfarfod nesaf, roedd grŵp y prosiect wedi cytuno y byddai'n edrych ar ddatblygu canlyniadau mesuradwy a chael sylw'r wasg i hyrwyddo cyfranogiad BGC. Yn strategol, soniodd JF iddo fod mewn cysylltiad â'r Bartneriaeth Ranbarthol Dysgu a Sgiliau i drafod posibilrwydd cael unigolyn i gydgysylltu lleoliadau a byddai'n llunio achos busnes i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru pe gellid dangos bod y prosiect yn llwyddiannus. Byddai diweddariad arall yn dilyn yn y cyfarfod nesaf.

**JF/NE ar gyfer yr agenda**

<u>Prosiect 2 – Asesiad o Risgiau Amgylcheddol a Newid Hinsawdd</u>

Nododd AW bod y prosiect yn un ar y cyd â Sir Gâr a Cheredigion. Y gobaith ar y dechrau oedd rhagbrofi, fel rhan o'r prosiect, asesiad risg tywydd garw gyda dwy gymuned ymhob ardal. Fodd bynnag, ni fu modd gwneud hyn oherwydd cyfyngiadau ar amser, a dim ond un gymuned fyddai'n cael ei thargedu bellach. Y canlyniad i'w ddymuno o'r prosiect oedd datblygu pecyn cymorth i wneud asesiadau o risgiau newid yn yr hinsawdd a bod ag unigolion hyfforddedig ymhob sefydliad yn gallu eu gwneud. Byddai diweddariad arall yn dilyn yn y cyfarfod nesaf.

**AW/NE ar gyfer yr agenda**

<u>Prosiect 4 – Gwneud Pethau'n Wahanol</u>

Nododd SJe y cynhaliwyd tri chyfarfod ynghylch datblygu canolbwynt cymunedol yng ngogledd y sir ac y gofynnwyd i bartneriaid ystyried rhestr o gwestiynau 'cadarnhau a herio' mewn cysylltiad â'r prosiect a Deddf LlCD ar waith. Byddai diweddariadau eraill yn dilyn yng nghyfarfodydd y dyfodol.

**SJe/NE ar gyfer yr agenda**

Prosiect 5 – Dathlu'r Awyr Agored

Yn absenoldeb RJ nododd SJe fod materion cysylltiedig ag atebion rhoi presgripsiynau cymdeithasol a gwyrdd ar draws pob un o'r tri BGC rhanbarthol yn Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gâr ac o fewn sefydliadau ym Mhowys. Cafwyd nifer o sgyrsiau i ddechrau dod â'r wybodaeth hon at ei gilydd. Roedd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cyflwyno tamaid i gronfa drawsnewid Llywodraeth Cymru o gwmpas rhoi presgripsiynau cymdeithasol a gwyrdd ar draws y rhanbarth ac roedd penderfyniad i'w ddisgwyl ar 14eg Mawrth. Byddai papur yn manylu ar gynnydd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf. **RJ/NE ar gyfer yr agenda**

Prosiectau 6, 7 ac 8 - prosiectau ar thema 'Cymuned'

*Rhwydwaith Cydgynhyrchu Sir Benfro* – rhoddwyd diweddariad i bartneriaid y BGC ar faterion allweddol a drafodwyd a phenderfyniadau a wnaed mewn cyfarfod o'r rhwydwaith a gynhaliwyd ar 21ain Ionawr 2019. Cadeiriwyd gan Sue Leonard, Is-gadeirydd y BGC, ac fe'i fynychwyd gan gynrychiolwyr CSP, Hywel Dda, APCAP, PLANED, PAVS, Dyfodol Gwledig a PACTO. Nododd MC y trefnwyd hyfforddiant Cydgynhyrchu ar gyfer 3ydd Ebrill 2019 ac y byddai dyddiad a manylion yr hyfforddiant yn cael eu cylchredeg ar ôl eu cadarnhau. **MC/SL**

*Prosiect Ffyniant a Chydnerthedd Cymunedol* – rhoddodd IT ddiweddariad cryno ar y prosiect, gan nodi'r llwyddiant a gafwyd yn Ysgol Hook wrth ddenu pobl ifanc i'r prosiect. Nododd mai un o ganlyniadau'r gwaith yn Hook oedd bod y Comisiynydd Plant wedi treulio diwrnod gyda'r prosiect ac y byddai hyn yn ffurfio rhan o'i hadroddiad blynyddol. Byddai'r dull a ddefnyddiwyd yn Hook, gan gynnwys y gwahanol ddulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd, yn cael ei ddefnyddio yn yr ardaloedd eraill a nodwyd ar gyfer y prosiect (Hwlffordd, Llandudoch a Scleddau) yn y dyfodol.

## 7. Cyflogwyr Ystyriol o Faethu

Amlinellodd IW ddiben y papur oedd wedi cael ei gyflwyno i dîm rheolwyr y Cyngor a'i fod yn ymgais gan yr awdurdod lleol i gynorthwyo denu mwy o ofalwyr maeth yn y Sir.

O safbwynt ymarferol, roedd gofalwyr maeth wedi nodi'r amser a gymrai'r broses asesu ac ymgeisio fel un peth a fyddai'n rhwystro pobl rhag dod yn ofalwyr maeth. Felly, roedd yr awdurdod lleol wedi cytuno y byddai'n cynnig 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb gyda thâl i'r rhai'n mynd drwy'r proses ymgeisio, a thri diwrnod ychwanegol o absenoldeb gyda thâl os ydynt yn llwyddiannus.

Gofynnodd IW i'r partneriaid godi hyn yn eu sefydliadau eu hunain i weld a oes modd sefydlu trefniadau tebyg i gynorthwyo denu gofalwyr maeth. **PAWB** Cytunwyd y byddai tîm y Bartneriaeth yn siarad â chydweithwyr Gofal Cymdeithasol i weld a oes gwybodaeth ychwanegol y gellid ei chylchredeg i'r partneriaid i hybu'r cais. **NE**

## 8. Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru ynghylch: Ystadau Cymru

Hysbyswyd partneriaid bod y BGC wedi derbyn llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru gyda'r diweddaraf am waith y Gweithgor Asedau Cenedlaethol (NAWG), sydd bellach wedi cael ei ailenwi'n Ystadau Cymru.

Sefydlwyd chwe is-grŵp rhanbarthol a gofynnwyd iddynt weithio'n agos gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chysylltu â nhw ynghylch unrhyw waith yn ymwneud ag asedau yn eu hardal. Nododd NE y trefnwyd cyfarfod o gynrychiolwyr BGC rhanbarthol gyda Jonathan Fearn, chynrychiolydd lleol Ystadau Cymru, ar ddiwedd Mawrth.

## 9. Llythyr oddi wrth Gadeirydd BGC Sir Gâr – Achlysur BGC Rhanbarthol 2019

Dywedodd TJ ei fod wedi derbyn llythyr oddi wrth Gadeirydd BGC Sir Gâr yn hysbysu bwriad i gynnal ail achlysur BGC rhanbarthol ar 7fed Mehefin 2019, yn dilyn yr achlysur agoriadol a drefnwyd yn Sir Benfro fis Mehefin diwethaf.

Cytunodd aelodau BGC eu bod yn dymuno cymryd rhan yn yr achlysur yn Sir Gâr ac fe nodwyd y canlynol fel eitemau agenda y gellid eu trafod:

- Adroddiad Cefn Gwlad Cymru SAC
- Presgripsiynau Cymdeithasol a Gwyrdd
- Asesiadau o Risgiau Newid yn yr Hinsawdd
- Dull data rhanbarthol
- Hyfforddiant Bwrdd Iach – y diweddaraf ar hyfforddiant Academi Wales

Awgrymodd TJ y gallai fod yn briodol estyn gwahoddiad i gynrychiolydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fynychu o ran data. Byddai NE yn trafod yr awgrymiadau uchod gyda'i gymheiriaid rhanbarthol. **NE**

Nododd KJ fod rhywfaint o dyndra yn y rhanbarth ynghylch y berthynas rhwng BGC a'r BPRh ac y trefnwyd achlysur cenedlaethol yng Nghaerdydd ar 20fed Mawrth i edrych ymhellach ar hyn. Cytunwyd y gallai hyn hefyd fod yn eitem ar agenda'r cyfarfod BGC rhanbarthol ym mis Mehefin yn dibynnu ar ganlyniad yr achlysur yng Nghaerdydd. Dywedodd NE ei fod ef ac AB, yn ogystal â Martyn Palfreman a chynrychiolwyr BGC Sir Gâr a Cheredigion, wedi cyfarfod yn ddiweddar i drafod hyn a bod MP yn awyddus i gynorthwyo gwaith BGC trwy gymorth ariannol a gafodd y BPRh lle'r oedd blaenoriaethau'n cyd-fynd.

## 10. UFA

Rhoddodd NE ragor o wybodaeth i'r partneriaid am yr achlysur i ystyried trefniadau presennol rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i'w cynnal yng Nghaerdydd ar 20fed Mawrth. Bydd yr achlysur yn dod â'r rhai sy'n ymwneud â BGC a BPRh at ei gilydd i ystyried sut maent yn gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys nodi meysydd o fudd cyffredin a sut gaiff y rhain eu trin, a bydd yn edrych ar ysbrydoli ffyrdd o gael eu gwaith i gyd-fynd yn well. Nododd y bydd Gweinidogion yn bresennol ac yn awyddus i glywed am brofiadau partneriaid.

Nododd TJ y rhoddwyd gwobr Balchder yn Sir Benfro i Hosbis Gartref Paul Sartori ym mis Ionawr 2019 a'i fod wedi ymweld â'u heiddo newydd ar ddechrau Chwefror. Gofynnwyd iddo hyrwyddo'u ras hwyl archarwyr flynyddol, a fyddai'n digwydd ar ddydd Sadwrn 4ydd Mai ym Maes Awyr Caeriw.

Nododd TJ hefyd y gall fod yn werth ystyried materion cysylltiedig â chynigion am arian mewn cyfarfod yn y dyfodol, oherwydd ei bod wedi derbyn amryw geisiadau'n ddiweddar yn gofyn am gymorth BGC i geisiadau ac, mewn rhai achosion, roedd gwahanol bartneriaid y BGC yn cynnig am yr un cyllid.

Awgrymodd SJ hefyd y gellid ystyried Meithrin Cyfoeth Lleol hefyd, sef caffael a gwario yn yr economi lleol yn hytrach nag ymhellach draw, i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Dywedodd JF ei fod wedi cael cais gan y Bartneriaeth Ranbarthol Dysgu a Sgiliau i hyrwyddo'u holiadur ar sgiliau sydd eu hangen heddiw ac yn y dyfodol. Byddai JF yn ei anfon at LR i'w gylchredeg a gofynnwyd i bartneriaid anfon yr holiadur i'w hadrannau Adnoddau Dynol i'w ateb. **JF/LR/ PAWB**

Hysbysodd MC y partneriaid o brosiect 2 flynedd amlasiantaethol newydd oedd wedi dechrau ar 1af Chwefror yn cynnwys PAVS, y Gwasanaethau Cymdeithasol a PLANED. Byddai'n edrych ar fenter leol a chael gofal yn y gymuned, gan ganolbwyntio ar fannau fel Penfro a Doc Penfro a Gogledd Sir Benfro oedd yn peri problem.

Nododd AW bod gwaith ar y gweill gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon a Choleg y Drindod Dewi Sant i ddatblygu holiadur newid yn yr hinsawdd i Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd CT olwg byr dros grant Cyfoethogi Sir Benfro Cyngor Sir Penfro ac awgrymodd y gallai'r BGC wneud cais i'r grant am arian ar gyfer prosiectau'r BGC yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**11. Paratoadau Prallan**

Yna gwaharddwyd y cyhoedd a thrafododd partneriaid yn fyr y paratoadau ar gyfer Prallan ymhob sefydliad a meysydd lle gallai fod gwaith amlasiantaethol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm.